

Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Radioleg (pelydr-X)/

Ysbyty Bronglais / Bwrdd Iechyd

Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 20 a 21 Tachwedd 2018

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio... 31	
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	34
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	35

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) o Ysbyty Bronglais ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 20 a 21 Tachwedd 2018. Ymwelwyd â'r ardal ganlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Yr Adran Radioleg (pelydr-X)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwch Swyddog Clinigol o grŵp Amlygiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Rhoddodd cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad o ddefnyddio'r adran pelydr-X yn Ysbyty Bronglais.

Yn gyffredinol, nodwyd cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Fodd bynnag, roedd angen gweithdrefn ychwanegol gan y cyflogwr mewn perthynas â rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar pelydr-X.

Roedd strwythur rheoli ar waith ac roedd llinellau adrodd clir wedi'u disgrifio a'u dangos.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth glir i ddeall risgiau a buddiannau eu hopsiynau o ran triniaeth.
- Yn gyffredinol, roedd cydymffurfiaeth dda â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017.
- Gwelsom arweinyddiaeth weladwy a chefnogol yn cael ei rhoi gan uwch aelodau o staff a oedd yn gyfrifol am reoli'r adran pelydr-X.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth cleifion o'r ffordd y gallant roi adborth am eu profiadau a gwneud cwyn am eu gofal a'u triniaeth
- Dangos bod pob ymarferydd, gweithredwr ac atgyfeiriwr â hawl sy'n gweithio'n unol â gweithdrefnau'r cyflogwr wedi eu darllen ac wedi eu deall
- Datblygu gweithdrefn ysgrifenedig addas ynglŷn â rhaglen sicrhau ansawdd mewn perthynas â chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer amlygiadau meddygol a'i rhoi ar waith
- Sicrhau bod cofnodion hyfforddiant pob ymarferydd a gweithredwr a benodwyd gan y cyflogwr i ymgymryd at amlygiadau meddygol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn a oedd yn ymwneud ag un o weithdrefnau'r cyflogwr ac argaeledd cofnodion hyfforddiant y staff. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r cyflogwr gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau gofal iechyd ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu drwy ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optometryddion a safleoedd eraill.

Mae Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth ac mae'n darparu nifer o wasanaethau i gleifion mewnol a chleifion allanol ynghyd â Chanolfan Gofal Brys 24 Awr.

Mae'r adran radioleg (pelydr-X) yn ymgymryd â nifer o brofion delweddu diagnostig. Mae'r rhain yn cynnwys radiograffi a radioleg ymyriadol, tomograffeg gyfrifiadurol¹, delweddu atseiniol magnetig² a sganio uwchsain³.

Ar adeg ein harolygiad roedd radiolegwyr, radiograffwyr uwch ymarfer, radiograffwyr ac ymarferwyr cynorthwyol yn gweithio yn yr adran. Roedd arbenigwyr mewn ffiseg feddygol hefyd ar gael i'r tîm staff ym maes radioleg ddiagnostig.

¹ Mae sgan tomograffeg gyfrifiadurol yn defnyddio pelydrau-X a chyfrifiadur i greu delweddau manwl o'r tu mewn i'r corff.

² Mae delweddu atseiniol magnetig (MRI) yn fath o sgan sy'n defnyddio meysydd magnetig cryf a thonau radio i greu delweddau manwl o'r tu mewn i'r corff.

³ Sgan uwchsain, a elwir yn sonogram weithiau, yw prawf sy'n defnyddio tonnau sain amledau uchel i greu delwedd o ran o'r tu mewn i'r corff.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Rhoddodd cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad o ddefnyddio'r adran pelydr-X yn Ysbyty Bronglais.

Gwelsom y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd.

Roedd agweddau ar yr amgylchedd yn achosi heriau sylweddol i'r staff o ran hyrwyddo preifatrwydd cleifion.

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaethau.

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu rhoi adborth am eu profiadau a chodi pryderon am eu gofal a'u triniaeth. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i godi pryder ynglŷn â'r gwasanaethau a roddwyd iddynt.

Cyn ein harolygiad, gofynnwyd i'r uwch aelodau o staff roi holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir gan yr adran pelydr-X. Cafodd 21 ohonynt i gyd eu cwblhau a'u dychwelyd. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion roi gradd am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

"Ardderchog, ni allai fod yn well"

"Yn dda ar y cyfan"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r adran wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddi; ymysg y gwelliannau a awgrymwyd roedd y canlynol:

"Mae ceisio dod o hyd i le parcio wrth ymyl yr ysbyty yn hunllef, ond ar wahân i hynny mae'r gwasanaeth a gaf yn dda iawn"

"Ardal aros breifat i ferched beichiog a'u partneriaid"

"Ystafell aros fwy o faint i gleifion"

"Cleifion allanol yn aros yn hir"

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gall y cleifion ofalu am eu hiechyd a'u llesiant.

Roedd deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr ardaloedd aros i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys posteri am roi'r gorau i smygu, bwyta'n iach a manteision brechlyn fflw.

Roedd posteri'n cael eu harddangos yn glir o amgylch yr adran yn gofyn i unigolion sydd neu a all fod yn feichiog neu sy'n bwydo ar y fron roi gwybod i aelod o'r staff. Mae hyn yn bwysig er mwyn hybu diogelwch y cleifion.

Gofal gydag urddas

Gwelsom y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd. Roedd agweddau ar yr amgylchedd yn achosi heriau sylweddol i'r staff o ran hyrwyddo preifatrwydd cleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn yr ysbyty ac yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster eu hunain bob amser yn ystod apwyntiadau.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn gofyn iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau eu prawf neu eu triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu prawf neu eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Er na wnaethom arsylwi ar gleifion yn cael eu trin, gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gyfeillgar. Roedd y staff yn amlwg yn ystyriol o barchu preifatrwydd ac urddas cleifion. Gwelsom fod y staff yn siarad â chleifion yn dawel er mwyn atal pobl eraill rhag clywed sgysiau. Gwelsom hefyd fod y

drysau i ystafelloedd triniaeth ar gau a bod llenni preifatrwydd yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion.

Roedd ciwbiclau newid ar gael i gleifion fel y gallent roi gynau urddas yr ysbyty amdanynt yn breifat cyn cael prawf neu driniaeth.

Roedd yr adran wedi'i threfnu dros dri llawr ac roedd ardaloedd aros i gleifion wedi'u lleoli o amgylch yr adran. Roedd un o'r ardaloedd hyn wedi'i lleoli yn y prif goridor, a oedd yn achosi heriau sylweddol i'r staff o ran cadw preifatrwydd cleifion mewnol a oedd yn ymweld â'r adran ar welyau. Er bod llenni preifatrwydd yn cael eu defnyddio i atal staff yr ysbyty ac ymwelwyr rhag cerdded drwy'r ardal hon, gwelsom staff yr ysbyty ac ymwelwyr yn defnyddio'r llwybr hwn i gyrraedd wardiau ac adrannau eraill.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion mewnol, hyd y gellir, tra byddant yn aros yn yr adran.

Gwybodaeth i gleifion

Cyfleu buddiannau a risgiau

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaethau.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a dywedodd pob un ond dau o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth glir er mwyn deall risgiau a buddiannau eu hopsiynau o ran triniaeth.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt hwy eu hunain ar ôl eu triniaeth. Fodd bynnag, dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig o ran gyda phwy y dylid cysylltu i gael cyngor ar sgil-ffeithiau unrhyw driniaethau a gawsant. O ystyried y sylwadau gan gleifion, dylid gwneud mwy o ymdrech i roi gwybodaeth i gleifion o ran gyda phwy y dylid cysylltu i gael cyngor.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar waith i arwain y staff wrth iddynt roi gwybodaeth i unigolion am y buddiannau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael prawf pelydr-X. Mae hyn yn ofynnol o dan y rheoliadau ac

mae'n helpu i sicrhau bod cleifion a'u gofalmwyr yn cael gwybodaeth lawn am eu gofal a'u triniaeth.

Roedd gwybodaeth am brofion pelydr-X yn cael ei harddangos i gleifion a'u gofalmwyr ei darllen er mwyn eu helpu ymhellach i ddeall am hyn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd trefniadau addas ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd y staff wrthym fod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion gyfathrebu yn Gymraeg pe dymunent wneud hynny. Roedd system dolen sain weithredol ar gael er mwyn helpu'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â'r staff.

Roedd arwyddion lliw mawr ar ffurf lluniau yn cael eu harddangos yn glir drwy'r ysbyty cyfan er mwyn helpu cleifion ac ymwelwyr i ddod o hyd i wardiau ac adrannau yn yr ysbyty. Roedd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' dod o hyd i'r adran unwaith eu bod yn yr adeilad.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt.

Dywedodd traean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi aros mwy na 15 munud i gael eu prawf neu eu triniaeth. Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi cael gwybod adeg cyrraedd am faint o amser y byddai'n ddebygol y byddai'n rhaid iddynt aros cyn cael eu prawf neu eu triniaeth.

Gwelsom fod hysbysfwrdd yn cael ei arddangos yn yr adran a oedd yn rhoi amser aros yn fras i gleifion. Ar y diwrnodau yn ystod ein hymweliad gwelsom fod cleifion yn cael eu gweld yn amserol. O ystyried y sylwadau gan gleifion, dylid gwneud mwy o ymdrech i roi gwybodaeth i gleifion am unrhyw oedi mawr.

Gofal Unigol

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu rhoi adborth am eu profiadau a chodi pryderon am eu gofal a'u triniaeth.

Er bod gwybodaeth am y trefniadau hyn ar gael yn yr adran, nid oedd yn cael ei harddangos mewn man amlwg. Roedd hyn yn golygu y byddai angen i gleifion a'u gofalwyr ofyn i'r staff am y wybodaeth hon yn hytrach na chael mynediad hawdd at y weithdrefn i'w dilyn.

Fodd bynnag, dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i godi pryder na gwneud cwyn am y gwasanaethau roeddent wedi'u cael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith y cleifion o'r ffordd y gallant roi adborth am eu profiadau a gwneud cwyn am eu gofal a'u triniaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth dda â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Fodd bynnag, roedd angen gweithdrefn ychwanegol gan y cyflogwr mewn perthynas â rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar pelydr-X.

Er i ni nodi rhai meysydd i'w gwella, roedd trefniadau ar waith i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion a oedd yn ymweld â'r adran pelydr-X.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)

Dyletswyddau cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig i adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt gael eu hamlygu i ymbelydredd (prawf pelydr-X). Y nod oedd sicrhau bod y claf yn cael yr amlygiad cywir.

Roedd hyn yn nodi'n glir mai gweithredwyr⁴ oedd yn gyfrifol am sicrhau bod cleifion a oedd yn cael eu hamlygu yn cael eu hadnabod yn gywir. O dan y weithdrefn roedd yn ofynnol i weithredwyr ofyn i gleifion gadarnhau eu henw, eu dyddiad geni a'u cyfeiriad). Roedd hefyd yn disgrifio ffyrdd amgen y mae'n rhaid i weithredwyr eu defnyddio pe na bai cleifion yn gallu cadarnhau eu manylion eu hunain (e.e. cleifion anymwybodol).

⁴O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mae gweithredwr yn unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar amlygiad meddygol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn i adnabod cleifion yn gywir.

Menywod o oedran magu plant

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer holi ynglŷn â beichiogrwydd.

Y nod oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd priodol a chyson. Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir mai'r gweithredwyr oedd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol ac roedd yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn, yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn a'r math o amlygiad.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd neu fwydo ar y fron yn unol â chanllawiau'r DU⁵.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau o ran y weithdrefn uchod.

Amlygiadau i ddelweddu anfeddygol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig a oedd yn nodi'r meini prawf ar gyfer amlygu unigolion i ddelweddu anfeddygol⁶.

Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir y meini prawf ar gyfer derbyn atgyfeiriadau ar gyfer amlygiadau o'r fath. Roedd hefyd yn nodi pryd roedd yn rhaid i'r staff geisio rhagor o wybodaeth gan yr atgyfeiriwr⁷ a'r gwiriadau roedd yn rhaid eu

⁵ Canllawiau (2017) yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017

⁶ Mae amlygu unigolion i ddelweddu anfeddygol yn cynnwys asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnfudo a dibenion yswiriant. Gall y rhai hefyd gael eu cyflawni i nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff.

⁷ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer amlygiadau meddygol.

cynnal cyn amlygu unigolion. Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r ymarferydd⁸ ar gyfer amlygiadau o'r fath fod yn radiolegydd ymgynghorol.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff mai'r unig amlygiadau i ddelweddu anfeddygol (h.y. y rhai a gyflawnir at ddibenion yswiriant neu ddibenion cyfreithiol) a oedd yn cael eu cyflawni yn yr adran oedd pelydrau-X o'r frest at ddibenion mewnfudo.

Meini prawf atgyfeirio

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer gwneud a derbyn atgyfeiriadau ar gyfer amlygiadau.

Roedd y rhain yn nodi'n glir mai dim ond gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yr oedd y cyflogwr wedi rhoi'r hawl iddynt atgyfeirio achosion a allai wneud hynny, sef meddygon a deintyddion yn bennaf a oedd wedi'u cofrestru ar y pryd â'u priod gyrff rheoleiddio proffesiynol.

Roedd y weithdrefn hefyd yn nodi sut y gellid atgyfeirio achosion a'r wybodaeth roedd angen ei chofnodi.

Roedd yn rhaid i bob achos gael ei atgyfeirio yn unol â'r canllawiau atgyfeirio a gydnabyddir yn genedlaethol. Nod y canllawiau hyn yw helpu gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i benderfynu ar yr archwiliad mwyaf priodol i ateb y cwestiwn clinigol sy'n codi.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn ar gyfer cadarnhau bod atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd yr oedd y cyflogwr wedi rhoi'r hawl iddynt wneud hynny. Roedd gweithdrefn y cyflogwr yn nodi'n glir os nad oedd modd cadarnhau manylion yr atgyfeiriwr yna na ddylai'r amlygiad fynd rhagddo.

Dyletswyddau ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

⁸ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am amlygiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau amlygiadau meddygol.

Roedd gan y cyflogwr bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi hawl a nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd). Roedd hyn yn nodi'n glir eu priod rolau.

Roedd disgwyl i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran pelydr-X gydymffurfio â gweithdrefnau'r cyflogwr a llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen ac wedi deall y gweithdrefnau hynny sy'n berthnasol i'w rôl. Gwelsom daflenni llofnodi a oedd yn dangos y broses hon.

Er bod disgwyl i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran lofnodi, nid oedd y trefniant hwn yn ymestyn i'r aelodau hynny o staff nad oeddent yn gweithio'n uniongyrchol yn yr adran (e.e. llawfeddygon yn defnyddio cyfarpar pelydr-X mewn theatr).

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerir i ddangos bod pob ymarferydd, gweithredwr ac atgyfeiriwr sydd â hawl ac sy'n gweithio'n unol â gweithdrefnau'r cyflogwr wedi eu darllen ac wedi eu deall.

Cyfiawnhau Amlygiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi⁹ amlygiadau. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau mai dim ond yr amlygiadau fydd eu hangen arnynt fel rhan o'r gofal a'r driniaeth y bydd cleifion yn eu cael.

Roedd hyn yn nodi'n glir bod gan ymarferwyr yr hawl i gyfiawnhau amlygiadau. Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion a oedd yn dangos awdurdodi (h.y. dystiolaeth o gyfiawnhau) amlygiadau.

Optimeiddio

⁹ Cyfiawnhau yw'r broses o bwyso a mesur manteision disgwyliedig amlygiad yn erbyn y niwed y gallai'r amlygiad ei achosi i'r unigolyn hwnnw. Awdurdodi yw'r dystiolaeth bod y broses gyfiawnhau wedi digwydd.

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio¹⁰ amlygiadau.

Nod y trefniadau hyn oedd sicrhau bod dosau o ymbelydredd a roddir i gleifion a'u gofawyr a'u cysurwyr o ganlyniad i amlygiadau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (a elwir hefyd yn ALARP).

Disgrifiodd uwch staff yn glir sut roedd yr arbenigwr ffiseg feddygol yn rhan o'r broses o optimeiddio amlygiadau. Roedd yn cynnwys profi cyfarpar, hyfforddi staff a phennu lefelau cyfeirio diagnostig lleol.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig¹¹.

Roedd hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer argymhell lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer amlygiadau a oedd yn cael eu cyflawni yn yr adran ynghyd â'r camau i'w cymryd pe bai amlygiad yn mynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig

Gwelsom fod lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu harddangos a'u bod ar gael i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran yn unol â'r weithdrefn uchod.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer cadarnhau a chofnodi'r dosau a oedd yn cael eu rhoi. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd pe bai'r amlygiad yn mynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig. Lle yr eir y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig yn rheolaidd, gall hyn awgrymu problemau o ran cyfarpar neu ymarfer ac y byddai angen ymchwilio i hynny. Cadarnhaodd gweithdrefn y cyflogwr lle yr eid y tu hwnt i'r

¹⁰ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

¹¹ Amcan lefelau cyfeirio diagnostig yw helpu i osgoi rhoi dosau gormodol o ymbelydredd i gleifion. Defnyddir lefelau cyfeirio diagnostig fel canllaw i helpu i hyrwyddo gwelliannau mewn ymarfer diogelu rhag ymbelydredd.

Iefelau cyfeirio diagnostig yn gyson y byddai'r arbenigwr ffiseg feddygol¹² yn cael ei hysbysu, y byddai ymchwiliad yn cael ei ddechrau ac y byddai unrhyw gamau unioni yn cael eu cymryd.

Pediatreg

Roedd y cyflogwr wedi datblygu canllawiau ar amlygu plant i ymbelydredd.

Y nod oedd sicrhau bod plant a oedd yn dod i'r adran mor ddigyffro â phosibl pan oeddent yn cael eu hamlygu i ymbelydredd a bod y dosau o ymbelydredd dan sylw mor isel â phosibl. Roedd y canllawiau hefyd yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan oedd achosion yn cael eu hatgyfeirio lle roedd cam-drin corfforol yn cael ei amau.

Gwelsom fod siartiau amlygiad pediatrig clir, ar sail oedran, ar gael yn hawdd. Roedd yr aelodau hynny o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a chanllawiau eu cyflogwr o ran amlygu plant i ymbelydredd.

Gwerthuso clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwerthusiad clinigol (adrodd) o bob amlygiad meddygol a oedd yn cael ei gyflawni yn yr adran. Mae hyn yn bwysig er mwyn hybu gofal amserol i'r cleifion.

Roedd y weithdrefn hon yn nodi'n glir pwy allai gynnal y gwerthusiad clinigol o amlygiadau a'r broses adrodd, gan gynnwys pan oedd angen adroddiadau brys.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion gennym a gwelsom dystiolaeth o'r gwerthusiad clinigol o amlygiadau.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

¹² Arbenigwr ffiseg feddygol yw person sydd â gradd mewn gwyddoniaeth neu gymhwyster sy'n cyfateb iddi ac sy'n cyfateb iddi a phrofiad o gymhwyso ffiseg at y defnydd diagnostig ac ymyriadol o ymbelydredd ïoneiddio.

Darparodd yr uwch staff restr gyfredol o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr adran. Roedd hon yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Dywedwyd wrthym fod rhai darnau o gyfarpar a oedd yn cael eu defnyddio yn yr adran yn hen ac y byddai angen cael cyfarpar newydd ar ryw adeg. Esboniodd yr uwch staff nad oedd unrhyw symiau penodol o arian wedi'u neilltuo er mwyn prynu cyfarpar newydd yn rheolaidd yn lle'r hen gyfarpar a oedd yn cael eu defnyddio yn y bwrdd iechyd. Yn hytrach, roedd y bwrdd iechyd yn cadw cofrestr risg gyfredol ac roedd adnoddau'n cael eu dyrannu yn unol â hynny, gan ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar risg.

Nodwyd gennym fod angen datblygu gweithdrefn ychwanegol gan y cyflogwr a'i rhoi ar waith. Roedd hyn yn ymwneud â rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar. Er nad oedd unrhyw weithdrefn ysgrifenedig, cawsom ein sicrhau bod radiograffwyr yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd cyfarpar yn rheolaidd a bod arbenigwyr ffiseg feddygol yn cynnal profion rheolaidd ar y cyfarpar yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i ddatblygu gweithdrefn ysgrifenedig addas mewn perthynas â rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer amlygiadau meddygol a'i rhoi ar waith.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hyrwyddo'r broses o brynu cyfarpar newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amlygiadau Ïoneiddio sy'n cynnwys ymbelydredd Ïoneiddio.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr adran yn hygyrch i gleifion a'u gofalwyr ac roedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ar y cyfan.

Roedd yr adran yn lân yr olwg ac nid oedd unrhyw beryglon baglu amlwg. Roedd arwyddion yn eu lle er mwyn atal y rhai heb awdurdod rhag mynd i mewn i ystafelloedd lle roedd cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelwch i'w dilyn wrth ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid yr adran; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr adran yn lân iawn neu'n eithaf glân.

Roedd yr amgylchedd yn lân heb unrhyw annibendod ar y cyfan. Roedd cyfarpar diogelu personol (e.e. menyg a ffedogau untro) ar gael i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag heintiau. Gwelsom hefyd fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn hawdd i'r staff. Mae dwylo glân yn hanfodol er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau rheoli heintiau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n mynd yn agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisi a gweithdrefnau cyfredol mewn perthynas â diogelu. Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod disgwyl i'r staff gael hyfforddiant diogelu fel rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd.

Er bod cofnodion hyfforddiant ar gael, roedd y rhain yn rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth aelodau o'r staff â'u hyfforddiant gorfodol cyffredinol yn hytrach na phynciau hyfforddiant unigol. Felly, nid oedd modd cadarnhau a oedd y staff wedi cydymffurfio â hyfforddiant diogelu ar adeg ein harolygiad.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn ceisio cyngor gan uwch aelod o'r staff yn yr adran neu dîm diogelu'r bwrdd iechyd pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â lles plentyn neu oedolyn a oedd yn agored i niwed. Fodd bynnag, ymddangosai nad oedd rhai aelodau o'r staff yn glir eu meddwl ynglŷn ag agweddau ar broses y bwrdd iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant digonol ac yn deall gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwiliad clinigol

Rhoddodd uwch aelodau o'r staff enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn diwethaf. Roeddent hefyd yn gallu esbonio sut roedd y rhain wedi cyfrannu at hyrwyddo ymarfer cyson rhwng y gwahanol adrannau pelydr-X o fewn y bwrdd iechyd er lles cleifion a'u gofal.

Bwriadwyd cyflwyno rhaglen o archwiliadau clinigol drwy'r bwrdd iechyd cyfan, gan gynnwys terfynau amser ar gyfer cwblhau, mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Cyngor arbenigol

Disgrifiodd uwch staff yn glir sut roedd yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn rhan o amlygiadau.

Roedd Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio cyffredinol y bwrdd iechyd yn nodi rôl yr arbenigwr ffiseg feddygol ac roedd hyn yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Ymchwil feddygol

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff nad oedd astudiaethau ymchwil feddygol o amlygiadau yn cael eu cynnal yn yr adran ar adeg ein harolygiad.

Fodd bynnag, roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig yn hyn o beth pe bai astudiaethau ymchwil feddygol yn cael eu cynnal. Roedd y weithdrefn hon yn nodi'r broses o gael cymeradwyaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Cafodd systemau rheoli gwybodaeth cynhwysfawr eu disgrifio a'u harddangos. Drwy'r systemau hyn roedd modd cofnodi manylion perthnasol cleifion a gwybodaeth am brofion diagnostig yn yr adran ac roedd y staff yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd.

Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion atgyfeirio cleifion (ar gyfer profion pelydr-X) gennym a nodwyd bod yr aelodau hynny o'r staff a oedd yn ymwneud â'r amlygiad wedi eu cwblhau drwy roi'r manylion priodol. Roeddent hefyd yn dangos bod y staff wedi dilyn gweithdrefnau perthnasol y cyflogwr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd strwythur rheoli ar waith ac roedd llinellau adrodd clir wedi'u disgrifio a'u dangos.

Gwelsom arweinyddiaeth weladwy a chefnogol yn cael ei rhoi gan uwch aelodau o staff a oedd yn gyfrifol am reoli'r adran pelydr-X.

Dangosodd y staff fod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u priod rolau yn yr adran.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant staff perthnasol i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran.

Fodd bynnag, nid oedd cofnodion hyfforddiant staff a oedd yn gweithio mewn adrannau eraill ond yr oedd angen iddynt gydymffurfio o hyd â gweithdrefnau'r cyflogwr ynglŷn â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ar gael yn unol â'r rheoliadau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd clir ei disgrifio a'i arddangos. Roedd trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r broses o weithredu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 fel roeddent yn gymwys i'r gwasanaeth delweddu diagnostig a ddarperir gan Ysbyty Bronglais a pharhau i gydymffurfio â nhw.

Yn ystod yr arolygiad gwelsom arweinyddiaeth weladwy a chefnogol yn cael ei rhoi gan radiograffydd arweiniol y safle. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell.

Roedd uwch reolwyr, uwch aelod o'r staff clinigol ac arbenigwr ffiseg feddygol ar gael yn ystod diwrnodau'r arolygiad i roi cymorth i'r adran a hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad.

Cyn yr arolygiad, roedd AGIC wedi gofyn i uwch aelodau o'r staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Y nod oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol yr adran mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno ac roedd yn gynhwysfawr.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Rhoi hawl

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi hawl¹³ a nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Roedd y rhain yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer rhoi hawl yn glir ac yn nodi deiliaid y ddyletswydd yn ôl grŵp staff. Roedd y weithdrefn yn nodi'r lefel ddisgwyliedig o hyfforddiant ar gyfer pob grŵp o staff â hawl ynghyd â chwmpas eu hymarfer.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu esbonio gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rhoi hawl, gan gadarnhau eu bod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig (llythyr rhoi hawl) o'u hawl i gyflawni tasgau sy'n gysylltiedig ag amlygiadau meddygol.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Prif weithredwr y bwrdd iechyd oedd y cyflogwr dynodedig. Mae hyn yn arferol. Roedd Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio y bwrdd iechyd yn nodi'n glir mai'r prif weithredwr oedd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r dyletswyddau fel y

¹³ Mae rhoi hawl yn cyfeirio at y broses o bennu rolau a thasgau deiliad y ddyletswydd y caniateir i unigolion ymgymryd â nhw.

cyflogwr fel y'i disgrifiwyd yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig clir a chryno wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Roedd y rhain yn gyfredol ac roedd dyddiadau adolygu wedi'u nodi'n glir.

Nodwyd gennym fod angen datblygu gweithdrefn ychwanegol gan y cyflogwr a'i rhoi ar waith. Roedd hyn yn ymwneud â rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar a disgrifir ein canfyddiadau yn gynharach yn yr adroddiad hwn (gweler yr adran - Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Hysbysiadau o ddigwyddiadau

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi gwybod am amlygiadau damweiniol neu anfwriadol yn yr adran ac ymchwilio iddynt. Mae hyn yn bwysig er mwyn helpu i nodi themâu a thueddiadau a rhannu gwersi o ddigwyddiadau er mwyn helpu i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto.

Roedd hon yn nodi'n glir y weithdrefn y dylai'r staff ei dilyn os oeddent yn amau bod amlygiad damweiniol neu anfwriadol wedi digwydd. Roedd y weithdrefn hefyd yn rhoi cyngor defnyddiol i'r staff ar yr hyn sy'n gyfystyr ag amlygiad anfwriadol neu ddamweiniol 'sy'n arwyddocaol yn glinigol'.

Roedd y weithdrefn yn rhoi'r arweiniad cywir i'r staff hysbysu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am ddigwyddiadau o'r fath yn amserol.

Nodwyd gennym, lle bu digwyddiadau, fod y gwersi o'r rhain wedi cael eu rhannu ymhlith y staff yn yr adran drwy gyfarfodydd tîm. Roedd trefniadau hefyd ar waith i rannu unrhyw wersi â thimau staff a oedd yn gweithio ag ymbelydredd Ïoneiddio mewn adrannau eraill o fewn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, o ystyried sampl o gofnodion cyfarfodydd tîm a chanfyddiadau archwiliadau clinigol nodwyd gennym y dylid bod wedi hysbysu AGIC am rai digwyddiadau o bosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hyrwyddo'r gwaith o roi gwybod am ddigwyddiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) a pharhau i'w dadansoddi, gan gynnwys achosion fu bron â digwydd, drwy system adrodd y bwrdd iechyd a, lle y bo'n briodol, i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Yn ystod ein harolygiad, dangosodd y staff fod ganddynt y sgiliau cywir a chadarnhawyd eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu priod rolau yn yr adran.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff ei bod yn anodd recriwtio graddau penodol o staff. Cadarnhawyd hefyd fod gan y bwrdd iechyd ymgyrch recriwtio barhaus mewn ymgais i ddenu staff newydd i weithio o fewn ysbytai'r bwrdd iechyd.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr a rhoi hawl iddynt. Roedd y rhain yn nodi'r lefel ddisgwyliedig o hyfforddiant ar gyfer pob grŵp o staff. Hefyd, roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hyfforddi ymarferwyr a gweithredwyr (a myfyrwyr) ar sut i ddefnyddio cyfarpar pelydr-X.

Disgrifiodd uwch aelodau o'r staff broses sefydlu ar gyfer staff newydd a staff asiantaeth, gan roi tystiolaeth o'r broses hon.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn gyflawn ac yn cynnwys llofnodion i ddangos bod yr hyfforddiant sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) wedi cael ei gynnig a bod y staff wedi cael yr hyfforddiant hwnnw. Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod aelodau newydd o'r staff yn cael eu goruchwyllo fel rhan o'u proses sefydlu a hyfforddi ond na ddefnyddiwyd dull gweithredu ar sail cymwyseddau.

Er bod cofnodion hyfforddiant i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran pelydr-X ar gael i'w harchwilio, nid oedd cofnodion ar gael i'r aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn gweithio'n uniongyrchol yn yr adran (e.e. ymarferwyr nyrsio yn yr ysbyty) ond yr oedd yn ofynnol iddynt weithio yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr. Priodolwyd hyn i'r ffaith bod y cofnodion hyn yn cael eu dal gan unigolion neu benaethiaid adrannau eraill.

Gwnaethom drafod hyn ag uwch aelodau o'r staff a chydabuwyd nad oedd gan y staff rheoli yn yr adran pelydr-X yr adnoddau na'r awdurdod i oruchwyllo hyfforddiant i staff sy'n gweithio mewn adrannau eraill. Yn ôl polisi a gweithdrefn y cyflogwr ar roi hawl i ddeiliaid dyletswydd, uwch reolwyr ac arweinwyr clinigol yr adran berthnasol fyddai'n gyfrifol am hyn gan gynnwys sicrhau bod staff o'r fath yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r cyflogwr. Yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mae angen i'r

cyflogwr sicrhau bod yr holl gofnodion hyfforddiant perthnasol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

O ran rhaglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd, fel y disgrifiwyd yn flaenorol, gwelsom fod cofnodion wedi cael eu cadw i fonitro canran y staff sy'n cydymffurfio â safonau'r bwrdd iechyd ei hun. Roedd y cofnodion hyn yn dangos nad oedd pob aelod o'r staff wedi bodloni gofynion hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. Rhoddodd yr uwch staff sicrwydd cadarn ar lafar bod hyn yn cael ei fonitro.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerir i sicrhau bod cofnodion hyfforddiant pob ymarferydd a gweithredwr a benodwyd gan y cyflogwr i ymgymryd ag amlygiadau meddygol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion am y camau a gymerir i gefnogi staff sy'n gweithio yn yr adran pelydr-X i gwblhau hyfforddiant gorfodol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysylltu a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddifffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddifffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd ([2018](#))

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag amlygiad anfwriadol, gormodol neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig ag amlygiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Mae gwasanaethau yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch Swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.	-	-	-

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty:Ysbyty Bronglais

Ward/adran:Adran Delweddu Diagnostig (pelydr-X)

Dyddiad arolygu: 20 a 21 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun sicrwydd ar unwaith	-	-	-	-

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty:Ysbyty Bronglais

Ward/adran:Adran Delweddu Diagnostig (pelydr-X)

Dyddiad arolygu: 20 a 21 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion mewnol, hyd y gellir, tra byddant yn aros yn yr adran.	Safon 4.1 Gofal Gydag Urddas	Caiff hysbysiadau eu gosod yn yr adran yn atgoffa'r staff o bwysigrwydd defnyddi'r llenni urddas. Bydd cyfathrebu â'r staff ar lafar hefyd.	Radiograffydd Arweiniol y Safle	28/02/19
		Caiff memorandwm ei anfon at bob pennaeth adrannol yn atgoffa pob aelod o'r staff y tu allan i'r adran radioleg na ddylid defnyddio'r adran i gyrraedd	Radiograffydd Arweiniol y Safle	28/02/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		adrannau eraill. Bydd uwch staff yn yr adran yn monitro'r coridor, a chaiff unrhyw aelodau o'r staff heb awdurdod sy'n defnyddio'r coridor eu herio a chaiff uwch staff perthnasol yn yr ysbyty eu hysbysu. Caiff staff derbynfa radioleg eu hatgoffa bod angen bod yn ymwybodol o breifatrwydd cleifion wrth ddefnyddio'r ffôn neu ddelio â chleifion yn y dderbynfa. Caiff sgrin cod Llywodraethu Gwybodaeth ei gweithredu ym mis Ionawr 2019, a chaiff pob aelod o staff y bwrdd iechyd ei hysbysu drwy e-bost cyffredinol sy'n cynnwys gwybodaeth ategol/rhagor o fanylion.	Radiograffydd Arweiniol y Safle Rheolwr Gwasanaethau Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg	Wedi'i gwblhau gwaith monitro'n parhau - 28/02/19 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith y cleifion o'r ffordd y gallant roi adborth am eu profiadau a gwneud cwyn am eu gofal a'u triniaeth.	Safon 6.3 Gwrando a Dysgu o'r adborth	Caiff posteri eu harddangos yn yr ardaloedd aros yn nodi sut i godi pryderon a chaiff taflenni eu gosod ar ddesgiau'r dderbynfa at ddefnydd cleifion. Bydd hyn yn cael ei wneud ym mhob un o Adrannau Radioleg y bwrdd iechyd.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30/04/19
		Caiff staff radioleg eu hysbysu am leoliad y taflenni a'r posteri hyn.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30/04/19
		Caiff adroddiadau eu paratoi drwy system adrodd Datix, a chânt eu hadolygu yng nghyfarfodydd arweinwyr safleoedd a'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Radioleg. Bydd hyn yn helpu i nodi tueddiadau a'r hyfforddiant pwrpasol fydd ei angen o bosibl.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	Wedi'i gwblhau - Yn parhau i fonitro tueddiadau
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i	Rheoliadau	Bydd gweithredwyr, ymarferwyr ac	Cadeirydd, y	30/04/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
AGIC am y camau gweithredu a gymerir i ddangos bod pob ymarferydd, gweithredwr ac atgyfeiriwr sydd â hawl ac sy'n gweithio'n unol â gweithdrefnau'r cyflogwr wedi eu darllen ac wedi eu deall.	Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) Rheoliad 6 (2)	atgyfeirwyr yn yr adran radioleg yn nodi eu bod yn ymwybodol o'r rheoliad ac yn ei ddeall drwy lofnodi taflen gofnod. I'r staff sy'n gweithio y tu allan i radioleg, caiff y weithdrefn hon ei chynnal drwy ofyn am i gofnod tebyg gael ei ddychwelyd. Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol yn trafod proses gydgysylltiedig o ddosbarthu a chyfathrebu ag atgyfeirwyr y tu allan i'r adran radioleg.	Pwyllgor Amlygiadau Meddygol Cadeirydd, y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol	30/04/19
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i ddatblygu gweithdrefn ysgrifenedig addas mewn perthynas â rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer amlygiadau meddygol a'i rhoi ar waith.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(d)	Mae gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd cyfarpar sydd eto i'w rhoi ar waith wrthi'n cael ei hadolygu gan arweinwyr safleoedd radioleg er mwyn cytuno arni, gyda mewnbwn gan yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, ar ôl iddi gael ei chymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol.	Cadeirydd, y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol	Cadeirydd, y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant digonol ac yn deall gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd.	Safon 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg	Bydd arweinwyr diogelu yn trefnu ac yn cyflwyno hyfforddiant pwrpasol wyneb yn wyneb i staff yr adran radioleg.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30/06/19
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hyrwyddo'r broses o brynu cyfarpar newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amlygiadau ïoneiddio.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Tynnwyd sylw'r tîm gweithredol drwy'r Pwyllgor Dyfeisiau Meddygol at faint o gyfarpar radioleg y bydd angen ei ddisodli. Mae papur yn amlinellu'r buddsoddiad presennol ac yn y dyfodol yn cael ei ddatblygu er mwyn nodi'r cyfarpar sydd â'r risg uchaf a llywio trafodaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn gofyn am adnoddau digonol.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	28/02/19
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hyrwyddo'r gwaith o roi gwybod am ddigwyddiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) a pharhau i'w dadansoddi, gan gynnwys achosion fu bron â digwydd, drwy system adrodd y bwrdd iechyd a, lle y bo'n	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd Rheoliad 8(3) o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio	Bydd adroddiadau o system Datix yn eitemau ar yr agenda yng nghyfarfodydd arweinwyr y safle a Grŵp Ansawdd a Llywodraethu a'r Pwyllgor Amlygiadau Meddygol.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg Rheolwr	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
briodol, i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	(Amlygiad Meddygol)	Datblygu hysbysiad canlyniad dysgu i'w ddefnyddio er mwyn rhannu gwersi i'w dysgu ar draws pob safle. Caiff adolygiad o'r lefel o ddigwyddiadau cofnodadwy ei gynnal yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol er mwyn dadansoddi'r lefelau cofnodi a chysondeb drwy'r bwrdd iechyd cyfan.	Gwasanaethau Radioleg Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	Cwblhawyd 30/04/19
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerir i sicrhau bod cofnodion hyfforddiant pob ymarferydd a gweithredwr a benodwyd gan y cyflogwr i ymgymryd ag amlygiadau meddygol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.	7.1 Y Gweithlu Rheoliad 17(4) o'r Rheoliadau Ymbelydredd ŏoneiddio (Amlygiad Meddygol)	Caiff y rhestr o ymarferwyr a gweithredwyr y tu allan i'r adran radioleg ei hadolygu. Bydd arweinwyr gwasanaethau perthnasol yn cwblhau dogfennaeth a ddatblygir gan y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol i ddangos bod cofnodion hyfforddiant yn gyflawn.	Cadeirydd, y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol Cadeirydd, y Pwyllgor Amlygiadau Meddygol	30/04/19 30/04/19
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion am y camau a gymerir i gefnogi staff sy'n gweithio yn	7.1 Y Gweithlu	Caiff adroddiadau perfformiad misol gan arweinwyr y safle eu cyflwyno yn	Rheolwr Gwasanaeth	Wedi'i gwblhau ac

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yr adran pelydr-X i gwblhau hyfforddiant gorfodol.		amlinellu'r meysydd i'w gwella o ran hyfforddiant gorfodol a chynlluniau i hwyluso'r amser i'w gwblhau (defnyddio diwrnodau gwasanaeth ac ati). Caiff ceisiadau am hyfforddiant pwrpasol wyneb yn wyneb i'r adran hyfforddiant eu gwneud yn ôl yr angen.	Radioleg Rheolwr Gwasanaeth Radioleg	yn barhaus Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Amanda Evans

Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaeth Radioleg

Dyddiad: 18.Ion.2019